

Awtistiaeth: Beth mae'r Cod yn ei olygu ichi?

Drwy wrando ar bobl awtistig a'u teuluoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Cod Ymarfer.



Mae'r Cod yn nodi'n glir sut y dylai gwasanaethau awtistiaeth weithredu, a pha gefnogaeth y dylai pobl ei disgwyl gan sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol lleol.

Drwy gydweithio â'i gilydd, dylai awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol ac Ymddiriedolaethau y GIG yng Nghymru gynllunio a chynnal gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl awtistig yn eu hardaloedd drwy:

- Sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar asesiadau awtistiaeth a diagnosis.
- Helpu pobl awtistig i gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol pan fo angen.
- Cefnogi'r rhai hynny sydd yn aros am ddiagnosis, a'u cefnogi wedi'r diagnosis.
- Sicrhau bod addasiadau yn cael eu gwneud i alluogi pobl awtistig i gymryd rhan mewn gweithgareddau dyddiol yn ddibryder, a'u bod yn gallu dilyn eu diddordebau eu hunain.
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ynglŷn ag awtistiaeth a sut y mae'r cyflwr yn effeithio ar fywydau pobl, gan sicrhau bod adnoddau ar gael i'r cyhoedd yn eang.
- Darparu hyfforddiant priodol ar gyfer pob aelod o staff sy'n cefnogi pobl awtistig.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

llyw.cymru/canllawiau-ar-wasanaethau-awtistiaeth